

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG
CYNGOR SIR GAR (2018-2033)
ARCHWILIAD**

RHESTR O FATERION A CWESTIYNAU

Mater 2: Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Tai a Seilwaith Cymunedol

Y Mater - A yw'r ddarpariaeth a'r dosbarthiad tai yn gadarn, wedi'u hategu gan dystiolaeth gadarn a chredadwy ac a ydynt yn gyson â'r polisi cenedlaethol? A fyddant yn cael eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun?

Darpariaeth o ran Tai

1. A yw'r ffigur gofyniad tai a nodwyd ym Mholisi SP4 yn briodol?

Ydy, ystyrir bod y ffigur gofyniad tai yn briodol. Byddai'n galluogi darparu ystod a dewis o gartrefi newydd mewn modd cynaliadwy a chyflawnadwy. Bydd y ffigur yn cefnogi dyheadau ein cymunedau ac yn cynnwys hyblygrwydd priodol i ymateb i amcanion y Cyngor o ran tai fforddiadwy.

a) Sut mae'r ffigur gofyniad o 8,822 wedi'i lunio? A yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?

Mae'r ffigur gofyniad tai yn deillio o senarios demograffig POPGROUP Edge Analytics, a oedd yn rhan o Bapur Tai a Thwf Economaidd Turley (Dogfen Gyflwyno CSD34). Nododd y Cyngor nifer o wahanol senarios demograffig ac economaidd y gellid eu defnyddio ar gyfer y cyfnod 2018-2033. Roedd hyn yn ymateb i Lawlyfr y CDLI drwy ystyried demograffeg, tueddiadau o'r gorffennol a ffactorau'n seiliedig ar bolisi, yn ogystal â'r berthynas â'r economi leol. Mae Pennod 8 yn yr 2il CDLI Adneuo Diwygiedig yn rhoi crynodeb o'r dadansoddiad o senarios demograffig amrywiol, tra bo'r Papur Pwnc Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd (Dogfen Gyflwyno CSD70) yn ymhelaethu ar ddewis y ffigur gofyniad tai a ffeirir.

b) Wrth nodi'r ffigur gofyniad, a oes sylw digonol wedi'i roi i amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru o ran aelwydydd a phoblogaeth?

Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddiffinio'r Ffigur Gofyniad Tai wedi bod drwy dri iteriad ers dechrau proses y CDLI Diwygiedig. Wrth gyhoeddi'r CDLI Adneuo ym mis Chwefror 2023, roedd yr amcanestyniadau swyddogol diweddaraf a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018, gyda senarios demograffig yn seiliedig ar amrywion yn deillio o'r data sylfaenol hynny, gan gynnwys rhagdybiaethau ynghylch lefelau uwch ac is o ffrwythlondeb a marwolaethau.

Yn y Papur Tai a Thwf Economaidd (Dogfen Gyflwyno CSD34) nodwyd yr angen i greu sylfaen newydd ar gyfer y prif amcanestyniadau i ystyried y 2 flynedd ychwanegol o ddata hysbys, a nodwyd yr amcanestyniad 10 mlynedd yn seiliedig ar dueddiadau fel y senario fwyaf addas. Mae hyn wedi caniatáu hyblygrwydd i sbarduno twf tai cynaliadwy a chyfrannu at gefnogi uchelgeisiau economaidd y sir.

Dangosir bod yr opsiwn a ffefrir yn realistig ac yn gyflawnadwy o'i feincnodi yn erbyn cyfraddau cyflawni'r gorffennol, ac mae'n cefnogi prif ddyheadau'r Sir o safbwynt yr economi ac adfywio.

c) A oes senarios twf tai amgen wedi cael eu hystyried? Os felly, pam maent wedi cael eu diystyru, a pham mae'r opsiwn a ffefrir wedi'i ddewis?

Ar gam y Strategaeth a Ffefrir, dadansoddwyd amrywiaeth o senarios demograffig i ddechrau er mwyn llywio'r opsiynau twf, a rhoddwyd ystyriaeth iddynt drwy ymgysylltu, gan gynnwys y fforwm rhanddeiliaid. Yn sail ar gyfer hyn, defnyddiwyd amcanestyniadau sail 2014 LIC. Ystyriwyd manylion pob senario a'r rhagdybiaethau y seiliwyd y senarios arnynt yn adroddiad Edge Analytics 2018. (Dogfen Gyflwyno CSD36)

Cafodd gwaith pellach ei wneud yn gysylltiedig â thystiolaeth yn rhan o'r CDLI Adneuo Diwygiedig 1af drwy Adroddiad Edge Analytics 2019 (Dogfen Gyflwyno CSD35). Cyn y dadansoddiad o'r senarios POPGROUP a oedd wedi'u hailgyflunio, cafwyd proffil demograffig wedi'i ddiweddarau o Sir Gaerfyrddin. Roedd hyn yn ymgorffori elfennau diweddaraf y newid yn y boblogaeth (genedigaethau, marwolaethau a chyfraddau mudo), patrymau mudo rhyngwladol a mewnl hanesyddol, yn ogystal ag ystadegau cwblhau tai a dadansoddiad wedi'i ddiweddarau o broffil oedran y sir.

Mae'r Papur Tai a Thwf Economaidd (Dogfen Gyflwyno CSD34) yn diweddarau'r ystod o senarios demograffig ac yn defnyddio rhagamcanion sail 2018 LIC ynghyd â 2 flynedd arall o ddata amcangyfrifedig. Mae hyn yn sail i Bennod 8 yr ail CDLI Adneuo Diwygiedig, a'r opsiwn twf a nodir yn y cynllun. Mae'r senario ddiweddaraf hon yn diystyru iteriadau blaenorol o senarios twf amgen, gan fod y senarios hynny wedi dyddio, ac mae'n creu darlun mwy realistig o dwf Sir Gaerfyrddin.

Dangosir bod yr opsiwn a ffefrir yn realistig ac yn gyflawnadwy o'i feincnodi yn erbyn cyfraddau cyflawni'r gorffennol, ac mae'n cefnogi prif ddyheadau'r Sir o safbwynt yr economi ac adfywio.

ch) A yw'r ffigur gofyniad wedi'i lywio gan asesiad cadarn o'r prif ddylanwadau lleol ar y galw am dai yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys maint ffurfio aelwydydd, lefelau mudo, a chyfraddau swyddi gwag?

Ydy, mae'r prif ddylanwadau lleol ar y galw am dai yn Sir Gaerfyrddin wedi'u hystyried ac wedi'u nodi yn y Papur Tai a Thwf Economaidd (Dogfen Gyflwyno CSD34).

Mae dadansoddiad sensitifrwydd ar ffurf aelwydydd wedi'i gynnal ar draws y senarios demograffig, wedi'i gyflunio drwy ddefnyddio rhagdybiaethau ynghylch cyfraddau aelodaeth cymharol. I raddau helaeth, roedd amcanestyniadau sail 2008 Llywodraeth Cymru yn defnyddio tueddiadau cyn cyfnod y cynllun cyfredol, ac yn awgrymu mai maint cyfartalog aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin fyddai 2.05 o bobl yn 2021. Mewn cyferbyniad â hyn, roedd amcanestyniadau diweddaraf ar sail 2018 yn defnyddio tueddiadau mwy diweddar, ac yn rhagweld y byddai cyfartaledd o 2.26 o bobl fesul aelwyd yn yr un flwyddyn. Dengys data cychwynnol o'r Cyfrifiad diweddaraf fod ychydig yn fwy (2.30) ag a ragwelwyd yn yr amcanestyniad diweddaraf hyd yn oed. Er y gallai amryw o resymau fod wrth wraidd y duedd hon, mae'n bosib ei bod yn deillio'n rhannol o'r ffaith nad oes gan unigolion unrhyw ddewis ond aros yng nghartref y teulu neu rannu ag oedolion eraill, yr hyn a elwir yn aelwydydd cudd, gan nad oes digon o dai ar gael.

I'r un graddau, mae effaith mudo mewnol a rhyngwladol wedi cael ei harchwilio'n ofalus fel un o 'gydrannau' y newid ym mhoblogaeth Sir Gaerfyrddin. Mae amcanestyniadau yn awgrymu y byddai twf y boblogaeth yn cael ei sbarduno gan fewnfudo net, ond yn yr holl senarios byddai all-lif net o bobl ifanc 15-19 oed, a llif cymharol gytbwys o bobl 25 i 29 oed. Ystyrir y dylanwadau hollbwysig hyn o fewn y papurau pwnc cefndirol i bennu'r ffigur gofyniad tai ac i gefnogi amcanion corfforaethol a Chynlluniau a Strategaethau'r Cyngor, gan gynnwys rhai'n ymwneud â thai fforddiadwy, datblygu economaidd a chreu swyddi, y cynllun llesiant a'r cynllun adfywio gwledig.

O ran cyfradd trosi aelwydydd, roedd data Cyfrifiad 2011 wedi dyddio rhywfaint ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon - gan ddisgwyl rhyddhau data o Gyfrifiad 2021, ond gan fod data mwy diweddar ar gael ar gyfer y Dreth Gyngor, roedd hi'n rhesymol casglu cyfradd tai gwag o 3.8% ac mae'r gyfradd honno wedi cael ei chymhwysu a'i chynnal drwy holl gyfnod y rhagolygon.

2. A yw'r ffigur cyflenwi tir tai a nodwyd ym Mholisi SP4 yn briodol?

Roedd y ffigur cyflenwi tir tai a nodwyd yn yr Ail CDLID Adneuo wedi'u ffurfio o ofyniad tai o 8,822 a darpariaeth o 9,704. Yn dystiolaeth ar gyfer y ffigur hwn ceir gwybodaeth safle-benodol ynghylch data cyflawnadwyedd a hyfywedd ar safleoedd mwy a chyfraddau adeiladu'r gorffennol. Mae'r ffigur yn cynnwys lwfans hyblygrwydd o 10%, a drafodir ym mhwynt (dd) isod. Mae tystiolaeth gefndir wedi'i darparu yn y Papur Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol – Rhan 1 Tai (CSD75) a'r Papur Sefyllfa Twf Tai a Dosbarthiad Gofodol (CSD64).

O ystyried ac edrych yn ôl ar ddata monitro o ddechrau cyfnod y Cynllun (2018), ystyrir bod ffigur tai is bellach yn briodol. Ystyrir bellach fod darpariaeth tai o 9,045 yn briodol ac yn gyflawnadwy. Y rheswm am hyn yw gostyngiad yn y lwfans hyblygrwydd i 2.5% a drafodir isod.

a) Sut mae'r ffigur cyflenwi o 9,704 wedi cael ei lunio? A yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?

Roedd y Papur Pwnc – Rhan 1 Tai (dogfen gyflwyno CSD75) a'r Papur Sefyllfa ar gyfer Twf Tai a Dosbarthiad Gofodol (dogfen gyflwyno CSD64) yn nodi manylion a chefnidir y ffigur cyflenwi tai.

Mae'r ffigur darpariaeth tai o 9,704 yn cynnwys yr elfennau canlynol:

Dyraniadau Polisi HOM 1 *	2259
Ymrwymadau Polisi HOM1	4565
Hap-safleoedd mawr (5+ annedd)	1305
Hap-safleoedd bach (<5 annedd)	1575
Cyfanswm	9704

*dyddiad sylfaen wedi'i ddiweddarau i fis Mawrth 2024

Mae tabl wedi'i ddiweddarau ar gyfer Amseru a Chyflwyno Dyraniadau wedi'i gynnwys yn Atodiad 3, ac yn dangos bod modd cyflawni dyraniadau ac ymrwymadau Polisi HOM1 yn gyffyrddus yn ystod cyfnod y Cynllun.

Ar ôl nifer o flynyddoedd yn monitro, mae'n amlwg nad yw'r ffigurau ar gyfer hap-safleoedd, yn enwedig y ffigur hap-safleoedd mawr, yn gyflawnadwy bellach. Nid yw'r lwfans hap-safleoedd a ragwelir ar gyfer y chwe blynedd cyntaf (plws 2 flynedd, y mae'n rhaid ei ddidynnu o'r 2 flynedd gyntaf o gyflenwad a ragamcennir er mwyn osgoi problemau'n dwbl-gyfrif yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu) wedi'i bodloni. Yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol, roedd lwfans o 87 annedd y flwyddyn wedi'i bennu, ond dim ond 74 o anheddau sydd wedi cael eu hadeiladu yn hytrach na'r 522 a ragwelwyd, neu dangyflenwad o 696 wrth ddidynnu 2 flynedd gyntaf y cyflenwad ragamcennir.

Cyflwynir dau dabl Taflwybr Tai yn Atodiad 1. Mae'r cyntaf yn seiliedig ar y ddarpariaeth tai o 9704 (yn unol â'r 2il CDLI Adneuo Diwygiedig) a'r ail yn seiliedig ar ffigur is a gynigir o 9045 sy'n cynnwys yr elfennau canlynol:

Dyraniadau Polisi HOM 1 *	2259
Ymrwymadau Polisi HOM1*	4565
Hap-safleoedd mawr (5+ annedd)	683
Hap-safleoedd bach (<5 annedd)	1538
Cyfanswm	9045

*dyddiad sylfaen wedi'i ddiweddarau i fis Mawrth 2024

Mae'r ddarpariaeth ddiwygiedig hon yn lleihau'r lwfans hyblygrwydd o 10% i 2.5%. Gellir dadansoddi elfen hap-safleoedd arfaethedig y cyflenwad tai fel a ganlyn:

Hap-safleoedd mawr

Mae Atodiad 1 yn dangos y taflywbr tai. Ceir dyfyniad isod o'r taflywbr ar gyfer yr elfen hap-safleoedd mawr:

Blwyddyn	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33
Cwblhau ar hap-safleoedd mawr	30	27	5	8	2	2									
Cwblhau a ragwelir ar hap-safleoedd mawr									87	87	87	87	87	87	87

Cwblhau ar hap-safleoedd mawr = 74
 Cwblhau a ragwelir ar hap-safleoedd mawr = 609
 Lwfans hap-safleoedd mawr = 683

Hap-safleoedd bach

Ceir dyfyniad isod o'r taflywbr ar gyfer yr elfen hap-safleoedd bach:

Blwyddyn	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33
Cofnodion gwirioneddol o gwblhau ar safleoedd bach	117	103	104	125	85	59									
Cwblhau a ragwelir ar hap-safleoedd bach							105	105	105	105	105	105	105	105	105

Cwblhau ar hap-safleoedd bach = 593
 Cwblhau a ragwelir ar hap-safleoedd bach = 945
 Lwfans hap-safleoedd bach = 1538

b) Beth yw cyfansoddiad y cyflenwad tai? A ddylai hyn gael ei amlinellu yng nghyfiawnhad rhesymegol Polisi SP4 a, lle bo'n briodol, a oes gan yr holl gydrannau yr un dyddiad sylfaen?

Mae cyfansoddiad y cyflenwad tai wedi'i nodi yng nghwestiwn 2a).

Cafodd cyfansoddiad y cyflenwad tai ei nodi mewn papurau pwnc cefndirol i symleiddio'r Datganiad Ysgrifenedig. Er tryloywder, fodd bynnag, dylai'r cyfiawnhad rhesymegol ar gyfer Polisi SP4 gynnwys cyfansoddiad y cyflenwad tai.

Mae gan holl elfennau'r cyflenwad tai yr un dyddiad sylfaen. Mae'r holl elfennau cyfredol, diwygiedig a gyflwynir yma wedi'u seilio ar 31 Mawrth 2024.

c) A yw'r nifer amcangyfrifedig o unedau o safleoedd ymrwymedig a hap-safleoedd yn realistig ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn? A oes lwfans peidio â chyflawni wedi'i ddiffinio a'i gymhwyso?

Ystyrir bod amcangyfrif yr unedau a gynhrychir o safleoedd ymrwymedig yn realistig a chytunwyd â pherchnogion tir ar gyfradd cyflawni safleoedd mwy, lle bu modd. Darperir Taflwybr wedi'i ddiweddarau - amseriad a threfn cyflwyno dyraniadau - yn Atodiad 3 ar gyfer safleoedd ymrwymedig.

Mae'r amcangyfrif o unedau a gynhrychir o hap-safleoedd yn deillio o gyfraddau adeiladu'r gorffennol. Dangosir y dystiolaeth i gefnogi cyfrifiad y ffigur ar gyfer hap-safleoedd mawr a bach yn y Papur Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol - Rhan 1 Tai (CSD75). Fodd bynnag, mae hi bellach yn chwe blynedd ers dechrau cyfnod y Cynllun, ac ni fu'r gyfradd gyflawni ar gyfer hap-safleoedd mawr na bach yn unol â disgwyliadau.

Cynigir diwygio'r gyfradd hap-safleoedd ar gyfer safleoedd bach a mawr, fel y nodir yng nghwestiwn 2a. Nid yw'r lwfans hap-safleoedd a ragwelir ar gyfer y chwe blynedd gyntaf (ac mae'n rhaid didynnu 2 fel y nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu) wedi'i fodloni. Ar sail tueddiadau'r gorffennol, pennwyd cyfartaledd o 87 o anheddau ar hap-safleoedd (fel y nodwyd yn nogfennau cyflwyno CSD74 a CSD75). Dim ond 74 o anheddau sydd wedi cael eu hadeiladu ar hap-safleoedd mawr hyd yma, yn hytrach na'r 522 a ragwelwyd. Ystyrir mai un o'r prif resymau am hyn yw bod rhai safleoedd wedi'u hailddosbarthu'n ymrwymadau wrth baratoi am yr 2il Gynllun Adneuo. Fel arall byddai'r safleoedd hynny wedi bod yn hap-safleoedd ar gyfer y cyfnod 20-22. Ystyrir bod yr 87 o anheddau y flwyddyn a ragwelir yn briodol ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y Cynllun.

I gefnogi'r lwfans hap-safleoedd, mae dogfen gyflwyno CSD75 yn esbonio'r cyfiawnhad dros y ffigur lwfans hap-safleoedd, ac yn cynnwys dadansoddiad o'r safleoedd sydd wedi'u dyrannu ar hyn o bryd yn y CDLI mabwysiedig, a'r tebygolrwydd y caiff y safleoedd hyn eu datblygu (gweler para. 3.21 ac atodiad 6).

Nid yw lwfans wedi'i ddiffinio na'i gymhwyso ar gyfer diffyg cyflawni. Ni ystyriwyd bod hyn yn addas gan fod y banc tir tai wedi'i ffurfio o safleoedd o amrywiaeth o feintiau, y mae nifer ohonynt yn gymharol fach. Fel Sir y mae rhannau helaeth ohoni o natur wledig, penderfynwyd diffinio safleoedd mawr fel rhai sy'n cynnwys 5 annedd neu fwy, yn hytrach na'r diffiniad o 10 annedd neu fwy a ddefnyddir yn fwy cyffredin

mewn ardaloedd mwy trefol. Ystyriwyd bod hyn yn fwy addas ar gyfer darparu tai o fewn yr ardal.

ch) Faint o anheddau fydd yn cael eu hadeiladu yn aneddiadau Haen 4? A yw'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?

Mae datblygiad tai mewn aneddiadau Haen 4 yn cael ei reoli gan Bolisi HOM3, ac mae lwfans o 264 o anheddau wedi'i ddsrannu i'r haen hon. Ceir manylion, cyfiawnhad a thystiolaeth bellach yn nogfen gyflwyno CSD75 - Twf a Dosbarthiad Gofodol Rhan 1 - Tai, ym mharagraffau 3.35 - 3.37 ac atodiad 2.

d) A ddylid cynnwys manylion y dyraniadau tai a'r safleoedd tai ymrwymedig yn y Cynllun?

Yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, mae Polisi HOM1 yn nodi enw'r safle, yr anheddiad, nifer yr unedau (tai'r farchnad a thai fforddiadwy) ac amlinelliad bras o'r cyfrannau i'w cyflwyno. Mae Polisi HOM1 yn darparu ar gyfer 192 o safleoedd (dyraniadau a safleoedd wedi'u hymrwymo) felly byddai cynnwys mwy o fanylion o fewn y Cynllun yn golygu ychwanegu adran faith a diangen. Ystyriir bod y manylion a ddarparwyd yn briodol.

dd) Sut mae'r lwfans hyblygrwydd o 10% wedi'i ddiffinio? A yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?

Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn awgrymu y gellid ystyried 10% fel man cychwyn wrth ystyried y lwfans hyblygrwydd, gan roi tystiolaeth gadarn ar gyfer unrhyw amrywio. Penderfynwyd bod yr hyblygrwydd o 10% a osodwyd yn y CDLI Diwygiedig yn lwfans rhesymol i fodloni'r gofyniad tai.

Mae cwestiwn 2a eisoes wedi cyflwyno lwfans hyblygrwydd amgen o 2.5%. Ystyriir bod yr ymrwymadau a'r dyraniadau tai yn briodol, a rhagwelir bod y gallu i'w cyflawni yn cyd-fynd â'r taflwybr. Y rheswm dros newid y lwfans hyblygrwydd yw tangyflawni dros y chwe blynedd cyntaf (ac mae angen didynnu 2 flynedd o'r taflwybr). Gweler yr atebion uchod yn a) a b).

Mae'r taflwybr diwygiedig ac amseriad a threfn cyflwyno dyraniadau yn Atodiadau 1 a 3 yn dangos mai ymrwymadau yw 66.9% o'r unedau tai ym Mholisi HOM1 sy'n rhoi hyder o ran y sicrwydd o ddatblygu safleoedd. Cydnabyddir hefyd y byddai'r niferoedd mawr o safleoedd a ddyrennir o fewn y cynllun, drwy bolisi HOM1, yn lleihau'r risg pe bai senario sylweddol nas rhagwelwyd yn achosi oedi cyn datblygu

unrhyw un o'r dyraniadau mwy. Barn y Cyngor yw y gellid cyflawni gostyngiad yn y ganran hyblygrwydd i 2.5% heb i hynny effeithio rhyw lawer ar weledigaeth nac amcanion strategol y Cyngor.

3. A yw'r gyfradd gyflawni yn y taflwybr tai yn realistig, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy ac yn gyson â gofynion y Llawlyfr?

Mae'r taflwybr a nodir yn yr 2^{il} CDLI Adneuo Diwygiedig wedi'i ddiweddarau ers hyn. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyflwyniad y data a'u haliniad â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, lluniwyd Papur Sefyllfa a'i gyflwyno fel tystiolaeth (dogfen gyflwyno CSD64). Mae'r ddogfen hon yn cywiro ac yn diweddarau'r tablau taflwybr tai a dosbarthiad gofodol. Ers llunio'r Papur, mae blwyddyn arall o ddata ar gael ar dai wedi'u cwblhau.

Ceir dau dabl Taflwybr Tai pellach wedi'u diweddarau yn Atodiad 1. Mae'r tabl cyntaf, yn seiliedig ar ddarpariaeth tai o 9704 yn ychwanegu blwyddyn arall o ddata cwblhau at yr hyn a gyflwynir yn y Datganiad Sefyllfa. Mae'r tabl yn amlygu tanddarpariaeth tai, felly mae tabl amgen wedi cael ei lunio. Mae'r taflwybr amgen hwn yn seiliedig ar ddarparu lwfans hyblygrwydd o 2.5% yn hytrach na 10%, gyda'r ddarpariaeth tai yn gostwng i 9045. Cyflwynir hyn i ddangos sut y gallai'r gofyniad cwblhau tai sy'n weddill yn rhes N y tabl taflwybr fod yn hafal i 0.

Mae chwe blynedd o'r taflwybr bellach wedi pasio yn sgil oedi i'r broses o baratoi'r Cynllun. Gellir priodoli'r diffyg i lefelau cwblhau isel ar safleoedd ymrwymedig, a diffyg darpariaeth ar hap-safleoedd:

- Roedd y nifer a gwblhawyd yn sylweddol is na'r disgwyl yn 2022-23 a 2023-24, a rhesymau posibl am hyn yw'r amodau economaidd, neu fod y CDLI mabwysiedig cyfredol wedi mynd heibio'i flwyddyn olaf, sef 2021.
- Nid yw'r lwfans hap-safleoedd a ragwelir ar gyfer y chwe blynedd gyntaf (ac mae'n rhaid didynnu 2 fel y nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu) wedi'i fodloni. Ar sail tueddiadau'r gorffennol, pennwyd cyfartaledd o 87 o anheddau ar hap-safleoedd. Dim ond 74 o anheddau ar hap ar safleoedd mawr sydd wedi'u hadeiladu, yn hytrach na'r 522 a ragwelwyd, yn ychwanegol at y golled o 174 na ellir eu cyfrif am y ddwy flynedd gyntaf o'r cyflenwad a ragamcanwyd, yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Ystyrir mai'r prif reswm dros beidio â chyflawni'r gyfradd hap-safleoedd hon yw bod nifer o safleoedd, wrth baratoi'r 2il Gynllun Adneuo, wedi'u hailddosbarthu'n ymrwymadau a fyddai fel arall wedi'u dosbarthu fel hap-safleoedd yn y cyfnod 20-22.

Mae Atodiad 3 yn nodi Taflwybr Tai - amseriad a threfn cyflwyno dyraniadau ar gyfer safleoedd dyranedig ac ymrwymedig - i ddiweddarau'r hyn a gyflwynwyd yn yr 2il

CDLI Adneuo Diwygiedig. Mae'r data ynddo wedi'u diweddarau i gyd-fynd â dyddiad sylfaen 31 Mawrth 2024.

4. A fydd y Cynllun yn cyflawni'r gofyniad tai?

Mae'r Cyngor yn hyderus y bydd y gofyniad tai yn cael ei gyflawni ac y gwneir hynny yn unol â'r taflwybr tai, fel y dangosir isod.

a) A yw'r dyraniadau safle ar gael ac a oes modd eu cyflawni o fewn yr amserlenni a ragwelir? A yw'r dyraniadau'n cael eu cefnogi gan fethodoleg asesu safle gadarn a chynhwysfawr, yn rhydd o gyfyngiadau datblygu sylweddol ac yn dangos eu bod yn economaidd hyfyw?

Mae'r holl safleoedd dyranedig wedi cael eu hasesu'n unol â'r Fethodoleg Asesu Safleoedd (dogfen gyflwyno CSD101), ac mae profformâu safle unigol wedi'u cynnwys yn nogfennau cyflwyno CSD104-109. Mae tystiolaeth ychwanegol wedi'i chasglu ar gyfer Safleoedd Allweddol (gweler dogfen gyflwyno CSD120 – Datganiad Sefyllfa – Safleoedd Allweddol) lle darparwyd tystiolaeth hyfywedd a Datganiad Tir Cyffredin, ymhlith tystiolaeth arall, i ddangos bod y safleoedd hyn yn gyflawnadwy (dogfennau cyflwyno CSD121 - CSD206).

b) A ddylid dyrannu safleoedd ymrwymedig?

Dylid. Mae Polisi HOM1 yn nodi'r holl dir yr ystyrir ei fod yn briodol ar gyfer datblygiad tai ac mae'n cynnwys safleoedd ymrwymedig a dyranedig, ac nid yw'r polisi ei hun yn gwahaniaethu rhwng y naill fath o dir a'r llall. Mae'r Taflwybr Tai yn cynnwys dwy ran - safleoedd ymrwymedig a safleoedd dyranedig, ac yn cael ei ddiweddarau mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol. Caiff safleoedd eu hailasesu bob blwyddyn u bennu'r categori y maent yn perthyn iddo o fewn y taflwybr.

Mae paragraff 1.22 Polisi Cynllunio Cymru yn nodi "*Mae'n rhaid i gynlluniau datblygu ddangos sut y disgwylir i leoedd newid i ddiwallu anghenion datblygu dros gyfnod y cynllun. Maent yn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr a'r cyhoedd ynglŷn â'r math o ddatblygiad a ganiateir mewn lleoliad penodol.*"

Byddai peidio â dyrannu safleoedd ymrwymedig yn creu ansicrwydd i gymunedau ag ardaloedd mawr o dir heb ei ddyrannu o fewn y terfynau datblygu. Mae dyrannu safleoedd ymrwymedig yn dangos bod y safleoedd hyn yn cael eu hystyried yn addas ac yn hyfyw, er nad ydynt wedi cael eu datblygu eto.

c) A yw strategaeth dai'r Cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid?

Mae'r strategaeth dai wedi'i hategu gan dystiolaeth ynghylch cyflawnadwyedd, ac mae'r Cyngor mor hyderus ag sy'n bosib fod y strategaeth yn gyflawnadwy, a ddangosir mewn nifer o bapurau cefndir. Fodd bynnag, fel y gwelwyd gyda dirwasgiad a phandemig byd-eang y blynyddoedd diweddar, a'r hinsawdd economaidd a ddeilliai o hynny, er gwaethaf pob ymdrech i gynllunio'n effeithiol, mae angen cynnwys elfen o hyblygrwydd. Fel y trafodwyd, mae lwfans hyblygrwydd wedi cael ei gynnwys yn y ddarpariaeth tai i sicrhau cyflawnadwyedd y gofyniad tai.

Mae safleoedd bach yn elfen bwysig o'r ddarpariaeth a'r strategaeth tai, ac mae polisïau fel HOM3 a HOM4 wedi'u dylunio i fod yn hyblyg o ran sicrhau bod tai priodol yn cael eu darparu mewn pentrefi llai.

Mae monitro yn rhan bwysig o broses y Cynllun lle ceir nifer o dargedau a sbardunau ym mhob maes polisi. Mae'r "sbardunau hyn yn darparu mecanwaith ar gyfer pennu sut mae polisïau'n gweithio ac a oes angen gweithredu" (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, para 8.6). Bydd sbardunau yn galluogi'r Cyngor i weithredu lle nad yw polisïau'n cael eu gweithredu'n llwyddiannus a bydd yn caniatáu ymateb i amgylchiadau sy'n newid os oes angen.

Dosbarthu a Datblygu Tai

5. A yw dosbarthiad gofodol y datblygiad tai newydd yn gynaliadwy ac yn gydlynol?

Mae dosbarthiad gofodol datblygiadau tai newydd yn unol â Pholisi SP3: Dosbarthiad Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau. Mae'r Polisi hwn yn ceisio dosbarthu twf a datblygiad yn ofodol ar draws y Sir, gydag aneddiadau wedi'u dyrannu i un o 6 chlwstwr o fewn yr hierarchaeth. Mae'r dull seiliedig ar glwstwr yn hyblyg wrth ddosrannu twf newydd ac yn osgoi unrhyw ragdybiaeth bod yn rhaid i bob anheddiad ym mhob haen gyfrannu at dwf.

Ethos Polisi SP4: Dull Cynaliadwy o Ddarparu Cartrefi Newydd yw darparu cartrefi mewn modd cynaliadwy. Mae Atodiad 2 yn cynnwys tabl dosbarthiad gofodol wedi'i ddiweddarau, yn seiliedig ar ddarpariaeth tai is.

a) Sut y bydd datblygu hap-safleoedd o fewn pob haen o'r hierarchaeth aneddiadau yn cael ei asesu a'i reoli? A ddylid helaethu cyfiawnhad rhesymegol Polisi HOM2 er mwyn esbonio'r dull o asesu cynigion yn unol â'r Cynllun?

Cyfrifwyd y ffigur hap-safleoedd yn seiliedig ar gyfartaledd o dueddiadau'r gorffennol (Gweler y Papur Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol - Rhan 1 Tai (CSD75). O hepgor yr ychydig flynyddoedd diwethaf am y rhesymau a nodir yn C.3, ystyrir bod y ffigur ar gyfer hap-safleoedd yn realistig ac yn gyflawnadwy.

Mae'n anodd rheoli datblygiadau ar hap-safleoedd oherwydd eu natur, ac ystyrir bod y CDLI mabwysiedig presennol wedi llwyddo i sicrhau cyfradd hap-safleoedd briodol ar gyfer cymunedau'r ardal. Mae Polisi HOM2 yn bolisi tebyg iawn i'r un sydd wedi'i gynnwys yn y CDLI mabwysiedig (Polisi H2) a thrwy barhau â'r ymagwedd hon ystyrir y bydd y dull o asesu a rheoli datblygiadau ar hap-safleoedd yn dderbyniol.

Gellid rhoi cyfeiriad yn y cyfiawnhad rhesymegol at bolisiau perthnasol yn y Cynllun, yn enwedig Polisiau PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol - Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd, ac yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Greu Lleoedd a Datblygu Cynaliadwy.

b) A yw dosbarthiad gofodol y dyraniadau tai a'r cyfleoedd hap-safleoedd yn gyson â'r hierarchaeth aneddiadau a nodwyd? A yw'r tablau yn Atodiad 7 yn gywir?

Ydynt, mae dosbarthiad gofodol y dyraniadau tai a'r cyfleoedd hap-safle yn gyson â'r hierarchaeth aneddiadau a nodwyd. Gweler yr ateb i gwestiwn 5. Mae dosbarthiad gofodol tai i'w weld mewn tabl wedi'i ddiweddarau yn Atodiad 2.

Roedd y tablau yn Atodiad 7 yn gywir ar adeg yr 2il Gynllun Adneuo, ond ers hynny maent wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu dwy flynedd arall o ddata cwblhau tai. Mae'r tablau cyfredol hyn sy'n dangos y taflywbr tai – amseriad a chfyfnodau cyflwyno'r dyraniadau wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.

6. A yw gofynion Polisi HOM3, yn enwedig y cap o 10%, wedi'u mynegi'n glir, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?

Nid yw'r cap o 10% yn seiliedig ar dystiolaeth ond fe'i hystyrir yn ymyriad priodol a arweinir gan bolisi i gefnogi datblygiad anheddau newydd o fewn aneddiadau Haen 4. Mae'r ganran hon yn cynnig cyfle i bentrefi gwledig ddatblygu ar gyflymder a fyddai'n gydnaws â'u cymeriad, eu hamgylchedd a'u swyddogaeth, gan bennu terfyn clir o ran yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn dwf derbyniol. Byddai hefyd yn darparu ar gyfer yr angen am dai, yn enwedig yng ngoleuni'r dystiolaeth a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Wledig, gan ganiatáu i ddatblygiadau gymhathu a'r aneddiadau i amsugno unrhyw dwf heb beryglu cymeriad lleol ardal.

Cyfeirir at y Papur Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol (Dogfen Gyflwyno CSD75) sy'n rhoi dadansoddiad o dai graddfa fach o fewn aneddiadau Haen 4 am gyfnod o 8 mlynedd. Mae'r data hyn yn dangos bod 91 o anheddau wedi'u cwblhau ym mhob un o'r 76 o aneddiadau Haen 4 gyda'i gilydd. Ein barn ni yw bod amlinellu terfynau datblygu yn yr achos hwn wedi cyfyngu ar y potensial am ddatblygiad newydd, naill ai gan nad yw tir yn cael ei gyflwyno gan dirfeddianwyr i'w ddatblygu, neu oherwydd cyfyngiadau amgylcheddol sylweddol, neu gyfyngiadau eraill ar ddatblygu sy'n amharu ar ddarpariaeth tai newydd.

Mae Polisi HOM3 yn adlewyrchu'r ymagwedd a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 6 (TAN6) er mwyn gwella cynaliadwyedd aneddiadau yn y tymor hir. Mae'r Polisi yn pennu'r dosraniad a roddwyd i bob anheddiad Haen 4 sy'n ychwanegol at yr hyn sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ond yr ystyrir ei fod yn adlewyrchu graddfa briodol i bob anheddiad.

Mae'r polisi yn pennu'r meini prawf ar gyfer lleiniau derbyniol, ac mae CCA wedi'u cyflwyno er mwyn cynorthwyo i ddehongli a chymhwyso'r polisi.

7. A yw'r Polisi HOM4 yn gyson â'r gofynion polisi cenedlaethol?

Cyfeirir at Argraffiad 12 Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 6 (TAN 6) mewn perthynas â chynigion datblygu mewn ardaloedd o gefn gwlad agored. Yn ôl y polisi cenedlaethol mae'n ofynnol arfer rheolaeth lem ar bob datblygiad preswyl oddi allan i aneddiadau neu ganolfannau presennol, ac y dylai'r datblygiadau hynny fod ar raddfa ac o ddyluniad sy'n parchu cymeriad yr ardal gyfagos. Fel sir wledig, mae gan Sir Gaerfyrddin gryn nifer o aneddiadau neu grwpiau o anheddau nad oes ganddynt derfynau datblygu ac nad ydynt wedi'u diffinio yn y fframwaith aneddiadau. Fodd bynnag, dylid nodi y gall yr ardaloedd hyn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau cynaliadwyedd cymdeithasol ac economaidd cymunedau gwledig, felly mae'r polisi hwn yn ceisio bodloni'r gofynion i ddarparu tai fforddiadwy fel eithriadau i fodloni 'angen lleol' lle bo hynny'n berthnasol ac yn dderbyniol.

Mae'r polisi felly'n adlewyrchu darpariaethau polisi cenedlaethol. Mae'r Cynllun a'i Eirfa yn esbonio'r meini prawf cymhwystra ar gyfer angen lleol, a'r personau y gellir eu hystyried yn gymwys, a bwriedir cyhoeddi CCA i er mwyn cynorthwyo i ddehongli a chymhwyso'r polisi.

8. A ddylai'r Cynllun gynnwys polisi sy'n ceisio rheoli lefelau dwysedd ar bob safle a gynigir ar gyfer datblygiad preswyl?

Bydd lefelau dwysedd addas a ddynodir ar gyfer datblygiadau preswyl yn amrywio rhwng y naill safle a'r llall, yn dibynnu ar gymeriad a chynaliadwyedd yr ardal, ac ystyriaethau safle-benodol fel nodweddion presennol, topograffi a hygyrchedd y safle. Gan hynny, ni roddir unrhyw ganllawiau penodol o fewn y polisi i reoli lefelau

dwysedd ar bob safle a gynigir ar gyfer datblygiad preswyl. Fodd bynnag, mae Polisi HOM1 yn y Cynllun yn pennu nifer dangosol o anheddau sydd i'w hadeiladu ar y safleoedd a ddyrennir ar gyfer tai. Yn ogystal â hynny, bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar Greu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy yn cael eu llunio a'u mabwysiadu ochr yn ochr â'r CDLI Diwygiedig a fydd yn rhoi arweiniad ychwanegol yn gysylltiedig â Pholisi SP12 i lywio datblygiad cynaliadwy a creu lleoedd, gan gynnwys lefelau dwysedd addas.

9. A yw'r dull o ddarparu tai arbenigol 'y tu allan i'r terfynau datblygu diffiniedig a heb fod yn ffinio â hwy' ym Mholisi HOM6 yn cael ei fynegi'n glir ac yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?

Mae HOM6 yn anelu i gynnwys hyblygrwydd ychwanegol a fydd yn galluogi darparu tai arbenigol i fodloni anghenion trigolion y Sir, yn enwedig y galw cynyddol am dai arbenigol i fodloni anghenion tai y boblogaeth sy'n heneiddio. I'r perwyl hwn, mae Polisi HOM6 yn ceisio caniatáu trosi eiddo presennol yn briodol os nad yw'r eiddo oddi mewn i'r terfynau datblygu nac yn ffinio â'r terfynau hynny. Fodd bynnag, mae'r Polisi yn gosod cyfyngiadau ar hyn drwy feini prawf a, b ac c o fewn y Polisi. Mae'r Polisi yn pwysleisio pwysigrwydd nodi safleoedd a lleoliadau addas a fyddai'n bodloni anghenion y darpar feddianwyr gan gydbwyso hynny â'r angen am ddatblygiadau cynaliadwy mewn lleoliadau cynaliadwy.

10. A ddylai'r Cynllun gynnwys polisi sy'n ceisio cyfyngu ar y defnydd o bob tŷ newydd i fod yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa?

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin ar hyn o bryd yn ystyried cyflwyno mesurau newydd i reoli nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau byrdymor yn Sir Gaerfyrddin. Yn rhan o'r gwaith hwn, mae'r dystiolaeth berthnasol yn cael ei chasglu a'i dadansoddi ynghyd â gwerthusiad o effaith mesurau'r dreth gyngor a gyflwynwyd hyd yma. Hyd y bo'r ymarfer hwn, a dadansoddiad llawn o'r dystiolaeth, wedi'u cwblhau, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i ddeall a oes angen Polisi newydd i gyfyngu ar ddefnydd pob tŷ newydd i unig neu brif breswylfa. Gweler hefyd ymateb y Cyngor i Gwestiynau Cychwynnol yr Arolygwyr mewn perthynas â newidiadau i bolisi cenedlaethol.

Seilwaith Cymunedol

11. A ddylai'r Cynllun gynnwys polisi sy'n ceisio amddiffyn y cyfleusterau cymunedol presennol?

Mae Polisi PSD6 yn cynnwys canllawiau ar gyfer darparu cyfleusterau cymunedol newydd. Mae'r testun ategol ym mharagraff 11.314 yn amlinellu pwysigrwydd cadw cyfleusterau cymunedol a'r rôl y maent yn ei chwarae. Ystyrir y byddai naill ai polisi newydd neu ychwanegiad at Bolisi PSD6 yn fuddiol, gyda golwg ar ddiogelu

cyfleusterau cymunedol. Os bydd yr Arolygydd yn cytuno, cynigir Polisi newydd fel a ganlyn:

Diogelu Cyfleusterau Cymunedol

